

Tyfu gyda'r Beibl

“Gwna dy orau i’th wneud dy hun yn gymeradwy gan Dduw, fel gweithiwr heb achos i gywilyddio am ei waith, yn ddiwyro wrth gyflwyno gair y gwirionedd.”
(adn. 15)

Beth am ddarllen 2 Timotheus 2:14–26 ac yna myfyrio

Derbyniodd darlithydd mewn coleg Cristnogol llythyr oddi wrth gyn-fyfyriwr yn diolch iddo am y sgysiaid defosiynol yr arferai eu cyflwyno cyn ei ddarlithoedd bob bore. Ysgrifennodd y myfyriwr: “Wrth i mi edrych yn ôl ar fy nyddiau yn y coleg, rwy’n gweld fod y sgysiaid hynny wedi cynnal fy ffydd.” Roedd y darlithiwr wedi caniatáu i’r llythyr darfu arno a dywedodd wrth ei fyfyrwr: “Sut mae posib i fyfyrwr fod mewn perygl o golli ei ffydd mewn coleg Cristnogol? Pam fod hwn yn dibynnu ar fwyta o’r llaw? Pam na fyddai’n hel bwyd â’i ddwylo ei hunan?”

Medraf ddeall ymateb y darlithiwr, oherwydd yr wyf yn derbyn nifer o lythyrâu cyffelyb oddi wrth bobl yn dweud: “Ni allwn fynd drwy’r dydd heb *Pob Dydd Gyda Iesu*,” neu, “Mae meddwl am ddiwrnod heb y llyfryn yn fy ngadael yn teimlo’n waglaw.” Mae rhan ohonof sydd yn darganfod yn y fath deyrngedau fesur o fodlonrwydd, wrth gwrs. Ond cofia fod y nodiadau hyn i’w defnyddio ddim ond fel cyflwyniad. Nid dyma’r prif gwrs. Os dim ond *Pob Dydd Gyda Iesu* sydd yn darparu mewnbwn ysbrydol i’th fywyd, yna, yn fuan iawn, byddi yn methu ar dy bererindod. Astudia’r Beibl drosot dy hun. Pryna esboniad Beiblaidd defnyddiol, a defnyddia hwn i’th gynorthwyo i ddeall unrhyw adnodau a all fod yn anodd yn dy olwg. Mae’r bwyd i gyd yn y Beibl. Mae’n wledd ardderchog. Paid â bodloni ar ryw dameidiau. Wrth i ti gasglu gwybodaeth yn uniongyrchol o Air Duw, fe fyddi di’n cryfhau yn ysbrydol. Mae fy ngeiriau i yn y llyfryn hwn yn peidio o ran dylanwad ar ôl eu darllen unwaith, ond ni fydd dylanwad geiriau Duw byth yn peidio.

Mae’r Beibl yn rhoi datguddiad sydd yn derfynol ac eto yn parhau i fod yn newydd. Felly, ychwanega at ddaioni yr wybodaeth yma am Dduw y mae ei Air yn ei rhoi i ti.

Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Ex. 16:11–36; Job 23:12; Jer. 15:16; Esec. 3:1–3; Heb. 5:11–14

Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Pa debygrwydd sydd rhwng y manna a Gair Duw?
2. Sut mae bwydo ar Air Duw?

Gweddi

O Dad, maddau i mi os wyf yn treulio oriau dirifedi gyda phethau ymylol ac ychydig iawn o amser hefo ti yn dy Air. Gad i bethau newid gan gychwyn heddiw. Cynorthwya fi, O Dad, oherwydd ar ben fy hun, rwy’n wamal. Yn enw Iesu. Amen.